# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD GWENER, 17EG MEHEFIN, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Rebeca Jones**

**01286 679890**

**polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 9 Mehefin 2022)

# PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

## AELODAETH (14)

### GWYNEDD

Y Cynghorwyr

June Jones
Paul John Rowlinson
Anne Lloyd-Jones
Dafydd Davies
Dafydd Meurig
Rhys Tudur
Gruffydd Williams

### YNYS MÔN

Y Cynghorwyr

John Ifan Jones
Dafydd Roberts
Robert Llewelyn Jones
Neville Evans
Ken Taylor
Jeff Evans
Robin Wyn Williams

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2022-2023

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2022-2023

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION** 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 4ydd Chwefror 2022 fel rhai cywir

**7. CYFRIFION TERFYNOL AR GYFER PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD** 8 - 17

Cyflwyno adroddiad gan Uwch Reolwr Cyllid, Cyngor Gwynedd

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

**Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**

**10:00 yb 4 Chwefror 2022**

**Cyfarfod rhithiol**

**Presennol:**

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. Richard Dew
Cyng. John Griffith
Cyng. Kenneth P Hughes

**Cyngor Gwynedd**
Cyng. Anne Lloyd Jones
Cyng. Gareth Griffith
Cyng. Paul Rowlinson
Cyng. Owain Williams

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Dewi F Jones | Prif Swyddog Cynllunio (CSYM) |
| Gareth Jones | Pennaeth Cynorthwyol (CG) |
| Rebeca Jones | Rheolwr Polisi Cynllunio – (GPCC) |
| Robyn Jones | Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (CSYM) |
| Heledd Jones | Arweinydd Tîm – (GPCC) |

**Ymddiheuriadau:**

Cyng. Berwyn Parry Jones

Cyng. Gareth A Roberts

Cyng. Robin Williams

Cyng. John Pughe Roberts

Cyng. Richard Owain Jones

**1. YMDDIHEURIADAU**

Wedi nodi uchod

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Mynegwyd cydymdeimlad y Pwyllgor tuag at gyn Cynghorydd Cyngor Sir Ynys Môn, Gareth Winston Roberts. Nodwyd y byddai yno air o gydymdeimlad yn cael ei anfon ato ar ran y Pwyllgor

**4. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2021 fel rhai cywir.

**5. ADRODDIAD ADOLYGU'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD - YMATEB I'R CYFNOD YMGYNGHORI CYHOEDDUS**

Rhoddwyd cyflwyniad gan Rebeca Jones yn amlinellu'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus sydd wedi mynd rhagddi yn gysylltiedig â'r Adroddiad Adolygu ac ymateb y swyddogion i'r sylwadau a dderbyniwyd.

Amlygwyd fod posib archwilio'r holl sylwadau a'r ymatebion iddynt yn atodiad 1 o'r papurau.

Nodwyd fod yr Adroddiad Adolygu wedi bod yn destun cyfnod ymgynghori cyhoeddus a derbyniwyd 329 o sylwadau gan 48 unigolyn.

Nodwyd fod nifer o'r sylwadau a dderbyniwyd yn amherthnasol i'r Adroddiad Adolygu, ond fod yna faterion sydd angen bod yn ystyriol ohonynt wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig wedi cael ei amlygu.

Yn dilyn derbyn ac ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd nodwyd yr angen i gynnal diwygiadau perthnasol i'r Cynllun. Tynnwyd sylw'r Panel at yr angen i gynnal y diwygiadau canlynol i'r Adroddiad Adolygu: -

- Cynnwys cyfeiriad yn rhan 2 o'r ddogfen i:

  a. Canllawiau Ddeddf Teithio Llesol (Gorffennaf 2021) (cyhoeddiad Llywodraeth Cymru)
  b. Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025 (cyhoeddiad Llywodraeth Cymru)

  c. Datganiad Ardal Forol (cyhoeddiad Cyfoeth Naturiol Cymru)

  ch. Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru
- Cynnwys testun sydd yn rhoi diweddariad ynghylch a'r oedi yn cyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol 15 diwygiedig yn Rhan 2
- Cynnwys cyfeiriad tuag at waith ymchwil yn gysylltiedig â ail gartrefi sydd wedi ei gynnal a'r peilot a fwriedir ar gyfer ardal Dwyfor.
- Man newidiadau i'r testun er mwyn cywirdeb.

Amlinellwyd yr holl newidiadau sydd wedi ei wneud i'r Adroddiad Adolygu yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus fel nodwyd yn Atodiad 1.

Cadarnhawyd fod yr Adroddiad Adolygu yn dod i gasgliad ynglŷn â'r angen i gynnal Adolygiad Llawn o'r Cynllun a bod y sylwadau a dderbyniwyd yn cytuno efo hyn. Ymhellach fe amlygwyd yr amserlen a'r drefn adrodd yn gysylltiedig â derbyn cymeradwyaeth o'r Adroddiad Adolygu.

Amlinellwyd y broses o adrodd ar yr Adroddiad Adolygu i gyfarfodydd o Gyngor Llawn Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd ac yna ei gyhoeddi a'i gyflwyno i'r Llywodraeth.

Materion a Godwyd

- Nodwyd fod angen bod yn barod am y drafodaeth ynglŷn â'r Adroddiad Adolygu yn y Cyngor Llawn ac ymateb Swyddogion i'r sylwadau sydd wedi ei derbyn yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus.
- Holwyd ynglŷn â Chynllun Peilot Dwyfor a phryd fydd yna fwy o fanylion yn cael ei gyhoeddi. Mae'r mater ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr yn fater eithriadol o bwysig i Wynedd a Môn. Mae'n ymddangos fod yna dipyn o drafod o amgylch y pwnc ond ddim yn cael ei weithredu arno.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â'r bygythiad o ffermydd lleol yn cael ei brynu gan gwmnïau mawr er mwyn plannu coed mewn ymgais i wrthbwyso eu hoel troed carbon. Er cydnabyddir fod newid hinsawdd yn fygythiad aruthrol mae ceisio gwyrdroi cyfraniad allyriadau carbon cwmnïau mawr drwy brynu ffermydd bychan yn fygythiad i gymunedau gwledig Cymreig.

Ymateb

- Nodi'r sylw
- Nodwyd mai cynllun y Llywodraeth yw'r Cynllun Peilot a bod unrhyw fanylion ynglŷn beth a sut fwriedir ei weithredu yn brin. Fodd bynnag, nodwyd fod y Llywodraeth wedi datgan eu bwriad i gynorthwyo hefo chael tai gwag yn nol mewn defnydd, cynllun cymorth i brynu a threialu trefn cofrestru wirfoddol fel rhan o'r Cynllun Peilot.

  Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at yr ymgynghoriad sydd yn mynd rhagddi ar hyn o bryd yn ymwneud a diwygiadau i ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio a nodwyd fod y Cynghorau yn y broses o baratoi ymateb i'r ymgynghoriad hynny. Mae'r ymgynghoriad yn rhan o becyn o ymyraethau gan y Llywodraeth.
- Nodwyd fod hyn yn fater sydd tu hwnt i reolaeth y CDLl ar y Cyd. Awgrymwyd ei fod fater a ddylai'r gael ei godi yn y Cyngor, ac yna cysylltu hefo'r Llywodraeth pe ystyrir yn briodol i wneud hynny.

**Penderfyniad**

Penderfynwyd y Pwyllgor-

i) Dderbyn y newidiadau arfaethedig i'r Adroddiad Adolygu sydd wedi ei gynnig yn Atodiad 2 o'r papurau.

ii) Cymeradwyo'r Adroddiad Adolygu (sydd i'w weld yn Atodiad 2) fel yr Adroddiad terfynol a fydd yn cael ei gyhoeddi a'i gyflwyno i'r Llywodraeth yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Cyngor llawn Cyngor Gwynedd a Chyngor sir Ynys Môn.

Diwedd

# Eitem 7

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd)** |
| DYDDIAD | **17 Mehefin 2022** |
| TEITL | **Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022** |
| PWRPAS | **Cyflwyno –**<br>• **Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2021/22, a**<br>• **Ffurflen Swyddogol Flynyddol o'r Cyfrifon, wedi'i ardystio, ond cyn Archwiliad** |
| GWEITHREDIAD | **Derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon** |
| AWDUR | **Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid, Cyngor Gwynedd** |

---

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

1.1 Fel adroddwyd mewn blynyddoedd a fu, mae gofynion adrodd penodol ar gyfer cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor 'arweiniol' sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar gyllid y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn).

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn llai na £2.5m, ystyrir y cyd-bwyllgor yn "gyd-bwyllgor llai o faint" a rhaid paratoi'r cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol gan ddilyn arferion priodol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

## 2. CYFRIFON 2021/22

2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2021/22 yma fel Atodiad A** ar ffurf adroddiad “alldro” syml.

2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y Ffurflen Swyddogol Flynyddol am 2021/22 wedi’i gwblhau a’i ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol**, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dewi Aeron Morgan) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

2.3 Mae’r cyfrifon a’r ffurflen eisoes yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i’r Cyd-Bwyllgor ar 21 Hydref 2022.

2.4 Ar ôl archwiliad ac yn dilyn unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio’r ffurflen cyn 30 Tachwedd.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 **Gofynnir i’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn a chymeradwyo’r wybodaeth sydd yn yr atodiadau**, sef –

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2021/22 – Atodiad A
- Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2022 – Atodiad B

**Atodiad A**

# PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

# (CYNGHORAU GWYNEDD A MÔN)

## CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2021/2022

| | Cyllideb 2021/2022 £ | Cyfrifon Terfynol 2021/2022 £ | Gwahaniaeth Gor/(Tan)wariant £ |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Gweithwyr | | | |
| Cyflogau | 366,170 | 376,925 | 10,755 |
| Costau Staffio Eraill | 1,920 | 872 | (1,048) |
| Yswiriant Atebolrwydd | 1,830 | 1,540 | (290) |
| Cludiant | | | |
| Cerbydau Pwl | 1,300 | 651 | (649) |
| Costau Teithio | 10,430 | 297 | (10,133) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | |
| Costau Rhedeg yr Uned | 4,780 | 260 | (4,520) |
| Costau Datblygu'r Cynllun | | | |
| Argraffiadau a Chyhoeddiadau | 5,180 | 1,187 | (3,993) |
| Marchnata a Chyhoeddusrwydd | 3,180 | 0 | (3,180) |
| Gwasanaeth Proffesiynol / Technegol | 31,030 | 1,500 | (29,530) |
| Cyfrifiaduron a Meddalwedd | 12,920 | 1,303 | (11,617) |
| Costau Eraill | 50 | 50 | 0 |
| Cefnogaeth Ganolog | | | |
| Ad-daliadau Costau Canolog | 57,540 | 57,540 | 0 |
| Addasiad 2019-20 - Costau Canolog | 0 | 4,020 | 4,020 |
| Arbedion i'w Darganfod | (10,000) | 0 | 10,000 |
| **Cyfanswm Gwariant** | 486,330 | 446,145 | (40,185) |
| **Incwm** | | | |
| Cyfraniad Cyngor Sir Ynys Môn | (243,160) | -223,073 | 20,087 |
| Cyfraniad Cyngor Gwynedd | (243,170) | -223,073 | 20,097 |
| **Cyfanswm Incwm** | (486,330) | -446,145 | 40,185 |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | **0** | **0** | **0** |

| | |
|---|---|
| Balansau/Reserfau a Glustnodwyd 31/03/21: | (179,172) |
| Trosglwyddiad | 0 |
| Symudiad Net | 0 |
| **Balansau/Reserfau a Glustnodwyd 31/03/22:** | **(179,172)** |

# Ffurflen Flynyddol Cydbwyllgorau Llai yng Nghymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2022

## Datganiadau cyfrifyddu 2021-22 ar gyfer:

**Enw'r corff:** Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn)

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben | | Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon |
|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2021 (£) | 31 Mawrth 2022 (£) | **Dylech dalgrynnu'r holl ffigyrau i'r £ agosaf.** **Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag gan gofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigwr fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.** |
| **Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau** | | | |
| **1.** Balansau a ddygwyd ymlaen | 179,172 | 179,172 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol. |
| **2.** (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll | 436,652 | 446,145 | Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff. |
| **3.** (+) Cyfanswm derbyniadau eraill | 0 | 0 | Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn y symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a refeniw. |
| **4.** (-) Costau staff | -373,785 | -379,336 | Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig, e.e. costau terfynu. |
| **5.** (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf | 0 | 0 | Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl). |
| **6.** (-)Cyfanswm taliadau eraill | -62,867 | -66,809 | Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn costau staff (llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (llinell 5). |
| **7.** (=) Balansau a gariwyd ymlaen | 179,172 | 179,172 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) – (4+5+6). |
| **Datganiad o falansau** | | | |
| **8.** (+) Dyledwyr | 0 | 0 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff. |
| **9.** (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau | 197,329 | 199,259 | **Pob cyfrif:** Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â'r cysoniad banc. |
| **10.** (-) Credydwyr | -18,157 | -20,087 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **11.** (=) Balansau a gariwyd ymlaen | 179,172 | 179,172 | **Dylai cyfanswm y balansau fod yn hafal i linell 7 uchod:** Nodwch gyfanswm (8+9-10). |
| **12.** Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor | 0 | 0 | Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth. |
| **13.** Cyfanswm benthyciadau | 0 | 0 | Balans cyfalaf dyledus pob benthyciad gan drydydd partïon ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB). |

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn), ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi’r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a’n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022, ein bod wedi gwneud y canlynol:

| | Cytunwyd? | | Mae ‘DO’ yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol: | Cyf y Canllaw i Ymarferwyr |
|---|---|---|---|---|
| | Do | Naddo* | | |
| **1.** Rhoi trefniadau ar waith ar gyfer:<br>• rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a<br>• pharatoi a chymeradwyo’r datganiadau cyfrifyddu. | ● | ○ | Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel a ragnodir gan y gyfraith. | 6, 12 |
| **2.** Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredigaeth, ac adolygu ei heffeithiolrwydd. | ● | ○ | Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a’r adnoddau dan ei reolaeth. | 6, 7 |
| **3.** Cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni’n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) i gynnal ei fusnes neu ar ei sefyllfa ariannol. | ● | ○ | Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo’r pŵer cyfreithiol i’w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny. | 6 |
| **4.** Darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. | ● | ○ | Rhoi’r cyfle i bob unigolyn â buddiant archwilio cyfrifon y corff yn unol â’r hyn a nodir yn yr hysbysiad o’r archwiliad. | 6, 23 |
| **5.** Cynnal asesiad o’r risgiau sy’n wynebu’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn)  ac wedi cymryd camau priodol i reoli’r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen. | ● | ○ | Ystyried y risgiau ariannol a’r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu’r corff ac ymdrin â hwy’n briodol. | 6, 9 |
| **6.** Cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a’r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol. | ● | ○ | Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a’r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw’r rhain yn diwallu anghenion y corff. | 6, 8 |
| **7.** Ystyried a oes unrhyw ymgyfreithiad, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i’r flwyddyn ddod i ben, yn cael effaith ariannol ar y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn)  a, lle y bo’n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu. | ● | ○ | Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i’r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol. | 6 |
| **8.** Cymryd camau priodol i fynd i’r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol. | ● | ○ | Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i’r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i’w sylw gan | 6, 8, 23 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | archwilwyr mewnol ac allanol. | |

* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i’r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb ‘naddo’ a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy’n cael eu cymryd i fynd i’r afael â’r gwendidau a nodwyd.

## Nodiadau datgelu ychwanegol*

| **Darperir yr wybodaeth ganlynol i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y datganiadau cyfrifyddu a/neu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol** |
|---|
| **1.** |
| **2.** |
| **3.** |

* Dylid cynnwys yma unrhyw ddatgeliadau ychwanegol sy'n angenrheidiol yn nhyb y Cyngor i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y datganiadau cyfrifyddu a/neu'r datganiad llywodraethu blynyddol.

## Cymeradwyaeth ac ardystiad y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn)

Y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethu blynyddol yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

| | |
|---|---|
| **Ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol**<br>Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn), a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022. | **Cymeradwyaeth gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor**<br>Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) o dan gyfeirnod cofnod:<br>**Cyfeirnod cofnod:** |
| **Llofnod y Swyddog Cyllid Cyfrifol:**<br> | **Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:** |
| **Enw:** DEWI AERON MORGAN | **Enw:** |
| **Dyddiad:** 19/05/2022 | **Dyddiad:** |

## Adroddiad archwilio mewnol Blynyddol ar gyfer:

**Enw'r corff:** Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn)

Mae archwiliad mewnol y Pwyllgor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2022.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Pwyllgor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ôl ystyried a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Pwyllgor.

| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Do | Naddo* | Amh. | Heb ei gynnwys ** | |
| **1.** Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn. | ● | ○ | ○ | ○ | Mewnosodwch destun |
| **2.** Bodlonwyd rheoliadau ariannol, ategwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ● | ○ | ○ | ○ | Mewnosodwch destun |
| **3.** Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli. | ● | ○ | ○ | ○ | Mewnosodwch destun |
| **4.** Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol. | ● | ○ | ○ | ○ | Mewnosodwch destun |
| **5.** Cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n brydlon, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ● | ○ | ○ | ○ | Mewnosodwch destun |
| **6.** Ategwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ○ | ○ | ● | ○ | Mewnosodwch destun |
| **7.** Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. | ● | ○ | ○ | ○ | Mewnosodwch destun |
| **8.** Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol. | ○ | ○ | ● | ○ | Mewnosodwch destun |

| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o’r gwaith a wnaed fel rhan o’r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i’r corff) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Do | Naddo* | Amh. | Heb ei gynnwys ** | |
| **9.** Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol. | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | Mewnosodwch destun |
| **10.** Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â’r llyfr arian parod, wedi’u hategu gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo’n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi’n briodol. | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | Mewnosodwch destun |

| **Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen):** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o’r gwaith a wnaed fel rhan o’r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i’r corff) |
| | Do | Naddo* | Amh. | Heb ei gynnwys** | |
| **11.** Nodwch y maes risg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | Mewnosodwch destun |
| **12.** Nodwch y maes risg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | Mewnosodwch destun |
| **13.** Nodwch y maes risg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | Mewnosodwch destun |

* Os atebwyd ‘naddo’, nodwch y goblygiadau a’r camau sy’n cael eu cymryd i fynd i’r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd ‘heb ei gynnwys’, nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i’r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanfyddiadau manwl a’m hargymhellion yr wyf yn eu dwyn i sylw’r Pwyllgor wedi’u cynnwys yn fy adroddiad manwl i’r Pwyllgor dyddiedig Mai 2022.] * Dileer os nad oes adroddiad wedi’i baratoi.

## Cadarnhau archwiliad mewnol

Yr wyf fi/Yr ydym ni yn cadarnhau nad wyf i/ydym ni, fel archwilydd mewnol y Pwyllgor, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi’r cyfrifon) nac fel aelod o’r corff yn ystod y blynyddoedd ariannol 2020-21 a 2021-22. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

| |
|---|
| **Enw’r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: LUNED FÔN JONES** |
| **Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol:** LunedFônJones |
| **Dyddiad: 18 Mai 2022** |